

Ysgol Gynradd Llandegfan



Polisi Cwricwlwm

Cytunwyd gan Staff: Tachwedd 2017
Mabwysiadwyd gan y Llywodraethwyr: Rhagfyr 2017
Adolygiad nesaf: Rhagfyr 2019

Arwyddwyd

Cadeirydd y Llywodraethwyr:

Pennaeth:

Yn ein hysgol amcanwn at gyflwyno cwricwlwm sy'n paratoi ein disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd er mwyn iddynt ddefnyddio'r sgiliau allweddol hyn yn ystod eu bywydau bob dydd. Mae ein cwricwlwm yn cynnig profiadau eang a chytbwys ar gyfer ein disgyblion. Mae ein cwricwlwm yn seiliedig ar ddogfennaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sef:

- Y Cwricwlwm Cenedlaethol
- Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen
- Y Fframwaith Sgiliau ar gyfer rhai 3-19 oed yng Nghymru
- Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i rai 3-19 oed
- Fframwaith Cenedlaethol Llythrennedd a Rhifedd
- Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Yn ein hysgol rydym yn parhau'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu ac yn amcanu bod pob disgybl yn datblygu i ddod yn gwbl ddwyieithog - gweler y polisi iaith am wybodaeth bellach.

Amcanion a nodau

Amcanion ein cwricwlwm ysgol yw:

- galluogi pob plentyn i ddysgu a datblygu eu sgiliau hyd eithaf eu gallu;
- galluogi pob plentyn i ddatblygu eu sgiliau yn yr iaith Gymraeg;
- hybu agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu, fel bod plant yn mwynhau dod i'r ysgol, ac yn cael sylfaen gadarn ar gyfer dysgu gydol oes;
- addysgu sgiliau sylfaenol llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth i blant;
- galluogi plant i fod yn greadigol a datblygu eu meddwl eu hunain;
- addysgu plant am eu byd sy'n datblygu, yn cynnwys sut mae eu hamgylchedd a'u cymdeithas wedi newid dros amser;
- cynorthwyo plant i ddeall treftadaeth ddiwylliannol Cymru;
- galluogi plant i fod yn ddinasyddion cadarnhaol yn y gymdeithas;
- cyflenwi holl ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a'r Maes Llafur Cytûn Lleol ar gyfer Addysg Grefyddol;
- addysgu plant i fod ag ymwybyddiaeth o'u datblygiad ysbrydol eu hunain, a deall daioni oddi wrth ddrygioni;
- cynorthwyo plant i ddeall pwysigrwydd gwirionedd a thegwch, fel eu bod yn tyfu i fyny yn ymroddedig i gyfleoedd cyfartal ar gyfer pawb;
- galluogi plant i fod â pharch tuag atynt eu hunain a hunan-barch uchel, ac i allu byw a gweithio'n gydweithredol gydag eraill.

Trefniadaeth a chynllunio

Rydym yn cynllunio ein cwricwlwm mewn tri cham. Rydym yn cytuno ar gynllun hirdymor ar gyfer pob Cyfnod allweddol. Mae hyn yn dynodi pa dopigau sydd i'w haddysgu ym mhob tymor, ac i ba grwpiau o blant. Rydym yn adolygu ein cynllun hirdymor ar sail flynyddol. Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn annog hyblygrwydd. Adnabyddir hyn gan yr ysgol.

Gyda'n cynlluniau tymor canol, rydym yn rhoi arweiniad clir ar y nodau a'r strategaethau addysgu rydym yn eu defnyddio wrth addysgu pob topig.

Ein cynlluniau byrdymor yw'r rhai y mae ein hathrawon yn eu hysgrifennu ar sail wythnosol neu ddyddiol. Rydym yn defnyddio'r rhain i osod nodau dysgu allan ar gyfer pob sesiwn, ac adnabod pa adnoddau a gweithgareddau rydym yn mynd i'w defnyddio yn y wers.

Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen

Mae ein hygol yn dilyn Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn sail ar gyfer dysgu ar gyfer disgyblion 3-7 oed. Mae Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys y meysydd dysgu a ganlyn:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amryfaliaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Datblygiad Mathemategol
- Datblygiad y Gymraeg
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol

Yn bennaf addysgir y Cyfnod Sylfaen yn thematig. Mae disgyblion yn gweithio ar dasgau perthynol i'r thema bresennol mewn gwahanol feysydd a ddiffiniwyd o'r dosbarth. Yn ychwanegol, mae addysgu cynnil mwy ffurfiol yn digwydd ar sail ddyddiol. Mae sesiynau o'r fath fel arfer yn canolbwyntio ar sgiliau sylfaenol rhifedd a llythrennedd.

Y Cwricwlwm Cenedlaethol

Mae ein hysgol yn dilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol yn sail ar gyfer addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys y pynciau a ganlyn:

- Cymraeg
- Cerddoriaeth
- Saesneg
- Mathemateg
- Gwyddoniaeth
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Dylunio a Thechnoleg
- Hanes
- Daearyddiaeth
- Celf a Dylunio
- Addysg Gorfforol

Mae dogfennaeth y Cwricwlwm Cenedlaethol yn gorchymyn yr ystod a'r sgiliau y dylid eu cwmpasu ym mhob pwnc yn ystod y Cyfnod Allweddol. Wedi dweud hynny, ceir gradd o hyblygrwydd sy'n caniatáu i athrawon gynllunio i'w cryfderau a darparu rhaglen amrywiol o astudiaeth. Ym Mlwyddyn 6, mae plant hefyd yn astudio iaith Dramor Fodern yn baratoad ar gyfer eu trawsnewid i ysgol uwchradd.

Y Fframwaith Sgiliau ar gyfer rhai 3-19 oed yng Nghymru

Rydym yn cynllunio ein holl wersi a'n gweithgareddau gyda'r Fframwaith Sgiliau mewn cof. Mae'r Fframwaith yn eistedd ochr yn ochr â Chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'n amlygu'r sgiliau allweddol y dylai plant eu meithrin a sut y dylent ddatblygu dros amser. Mae cyfleoedd i ymarfer y sgiliau allweddol hyn wedi eu treiddio drwy'r cwricwlwm. Mae'r sgiliau allweddol wedi eu dosbarthu fel a ganlyn:

- Cyfathrebu
- Rhif
- Meddwl

- TGaCh

Addysg Grefyddol

Rydym yn dilyn y maes llafur cytûn lleol ar gyfer Addysg Grefyddol. Mae Awdurdod Lleol Môn wedi mabwysiadu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i rai 3-19 oed fel y maes llafur cytûn lleol.

Fframwaith Cenedlaethol Llythrennedd a Rhifedd

Rydym yn dilyn y Fframwaith Cenedlaethol Llythrennedd a Rhifedd sy'n darparu strwythur mwy manwl i ddogfennaeth y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'n gosod allan y sgiliau rydym yn disgwyl i'n plant eu datblygu yn yr ysgol o 5-11 oed.

Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Gyda'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol newydd ei ryddhau ond ddim yn statudol eto, bydd yr ysgol dros y cyfnod anstatudol hyn yn addasu cynlluniau i gyfateb a'r gofynion a fydd yn statudol o fewn y blynyddoedd nesaf.

Disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r cwricwlwm yn ein hysgol wedi ei gynllunio i ddarparu mynediad a chyfle i bob plentyn sy'n mynychu'r ysgol. Os teimlwn ei bod yn angenrheidiol addasu'r cwricwlwm i gyfarfod ag anghenion plant unigol, yna byddwn yn gwneud hynny yn unig wedi ymgynghori â rhieni'r plentyn.

Monitro ac adolygu

Mae pwyllgor cwricwlwm ein corff llywodraethu yn gyfrifol am fonitro'r ffordd y gweithredir cwricwlwm yr ysgol. Mae'r pwyllgor hwn yn adolygu pob maes pwnc yn ei gylch adolygu a datblygu, gan arsylwi sesiynau a gwaith plant.

Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am drefniadaeth dydd i ddydd y cwricwlwm. Mae'r Pennaeth yn monitro'r cynlluniau gwersi wythnosol ar gyfer pob athro, gan sicrhau yr addysgir pob dosbarth ofynion llawn y Cwricwlwm Cenedlaethol, a bod gan bob gwern nodau dysgu priodol.

Mae arweinwyr pwnc yn monitro'r ffordd yr addysgir eu pwnc drwy'r ysgol. Maent yn archwilio cynllunio hirdymor a thymor canol, ac yn sicrhau bod strategaethau addysgu priodol yn cael eu defnyddio. Mae gan arweinwyr pwnc gyfrifoldeb hefyd am fonitro'r ffordd y mae adnoddau'n cael eu cadw a'u rheoli.

At our school we aim to deliver a curriculum that prepares our pupils for opportunities, responsibilities and life experiences in order for them to use these key skills during their everyday lives. Our curriculum offers broad and balanced experiences for our pupils. Our curriculum is based on documentation provided by the Welsh Assembly Government namely:

- The National Curriculum
- The Foundation Phase Curriculum
- The Skills Framework for 3-19 Year Olds in Wales
- National Exemplar Framework for Religious Education for 3-19 Year Olds
- National Literacy and Numeracy Framework

At our school we respect the Welsh language as a learning medium and aim that all pupils develop to become fully bilingual - see language policy for further information.

Aims and objectives

The aims of our school curriculum are:

- to enable all children to learn and develop their skills to the best of their ability;
- to enable all children to develop their Welsh language skills;
- to promote a positive attitude towards learning, so that children enjoy coming to school, and acquire a solid basis for lifelong learning;
- to teach children the basic skills of literacy, numeracy and information technology;
- to enable children to be creative and to develop their own thinking;
- to teach children about their developing world, including how their environment and society have changed over time;
- to help children understand Wales's cultural heritage;
- to enable children to be positive citizens in society;
- to fulfil all the requirements of the National Curriculum, the Foundation Phase Curriculum and the Locally Agreed Syllabus for Religious Education;
- to teach children to have an awareness of their own spiritual development, and to understand right from wrong;
- to help children understand the importance of truth and fairness, so that they grow up committed to equal opportunities for all;
- to enable children to have respect for themselves and high self-esteem, and to be able to live and work co-operatively with others.

Organisation and planning

We plan our curriculum in three phases. We agree a long-term plan for each key stage. This indicates what topics are to be taught in each term, and to which groups of children. We review our long-term plan on an annual basis. The Foundation Phase curriculum encourages flexibility. This is recognised by the school.

With our medium-term plans, we give clear guidance on the objectives and teaching strategies that we use when teaching each topic.

Our short-term plans are those that our teachers write on a weekly or daily basis. We use these to set out the learning objectives for each session, and to identify what resources and activities we are going to use in the lesson.

The Foundation Phase Curriculum

Our school follows the Foundation Phase Curriculum as the basis for learning for pupils aged 3-7. The Foundation Phase Curriculum is comprised of the following areas of learning:

- Personal and Social Development, Well-Being and Cultural Diversity
- Language, Literacy and Communication Skills
- Mathematical Development
- Welsh Language Development
- Knowledge and Understanding of the World
- Physical Development
- Creative Development

In the main the Foundation Phase is taught thematically. Children work on tasks related to the current theme in various defined areas of the classroom. In addition, more formal discreet teaching takes place on a daily basis. Such sessions usually focus on the basic skills of numeracy and literacy.

The National Curriculum

Our school follows the National Curriculum as the basis for learning in Key Stage 2. The National curriculum is comprised of the following subjects:

- Welsh
- Music
- English
- Mathematics
- Science
- Information and Communications Technology
- Design and Technology
- History
- Geography
- Art and Design
- Physical Education

The National Curriculum documentation dictates the range and skills which should be covered in each subject during the Key Stage. That said, there is a degree of flexibility which allows teachers to plan to their strengths and provide a varied programme of study. In Year 6, children also study a Modern Foreign Language as preparation for their transition to secondary school.

The Skills Framework for 3-19 Year Olds in Wales

We plan all our lessons and activities with the Skills Framework in mind. The Framework sits alongside the Foundation Phase Curriculum and National Curriculum. It highlights key skills that children should foster and how they should develop over time. Opportunities to practice these key skills are threaded throughout the curriculum. The key skills are categorised as follows:

- Communication
- Number
- Thinking
- ICT

Religious Education

We follow the locally agreed syllabus for Religious Education. Anglesey Local Authority has adopted the National Exemplar Framework for Religious Education for 3-19 Year Olds as the locally agreed syllabus.

National Literacy and Numeracy Framework

We follow the National Literacy and Numeracy Framework which provides more detailed structure to the Foundation Phase and National Curriculum documentation. It sets out the skills we expect our children to develop in school from the age of 5-11.

Children with Additional Learning Needs

The curriculum in our school is designed to provide access and opportunity for all children who attend the school. If we think it necessary to adapt the curriculum to meet the needs of individual children, then we do so only after the parents of the child have been consulted.

Monitoring and review

Our governing body's curriculum committee is responsible for monitoring the way the school curriculum is implemented. This committee reviews each subject area in its cycle of review and development, observing sessions and children's work.

The headteacher is responsible for the day to day organisation of the curriculum. The headteacher monitors the weekly lesson plans for all teachers, ensuring that all classes are taught the full requirements of the National Curriculum, and that all lessons have appropriate learning objectives.

Subject leaders monitor the way their subject is taught throughout the school. They examine long-term and medium term planning, and ensure that appropriate teaching strategies are used. Subject leaders also have responsibility for monitoring the way in which resources are stored and managed.